# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

# Environment and Sustainability Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Mr La Via ASE
giovanni.lavia@europarl.europa.eu

26 Hydref 2012

Annwyl Giovanni

**Ymateb Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r Adroddiad Drafft ar gynigion am reoliad ar gyllido, rheoli a monitro'r PAC.**

Ysgrifennaf atoch yn rhinwedd eich swydd fel rapporteur ar gynnig y Comisiwn am reoliad ar gyllido, rheoli a monitro'r PAC. Sefydlodd Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru grŵp rapporteur ym mis Medi 2011 i ystyried y cynigion ar ddiwygio'r PAC ac i gasglu ystod eang o farn rhanddeiliaid yng Nghymru ynglŷn â'u blaenoriaethau ar gyfer y diwygio.

Ers hynny, rydym wedi bod yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Pwyllgor Amaeth yn Senedd Ewrop ac Aelodau Cymru o Senedd Ewrop er mwyn cyflwyno anghenion a phryderon rhanddeiliaid yng Nghymru. Yn anffodus, nid oedd yn bosibl i ni eich cyfarfod yn ystod ein hymweliad â Brwsel ym mis Mai ond roeddem wrth ein bodd yn cymryd rhan mewn trafodaeth ddefnyddiol ac ysgogol ar y cynigion hollbwysig hyn gyda rhai o'ch cyd-aelodau ar y Pwyllgor.

Felly, gyda chryn ddiddordeb y darllenom eich Adroddiad Drafft ar gynigion am reoliad ar gyllido, rheoli a monitro'r PAC a chredwn y bydd nifer o'r cynigion a gyflwynwyd gennych yn gwella'r cynigion a amlinellwyd gan y Comisiwn. Yn arbennig, croesawn yn fawr:

- Welliannau 58 a 62 ynghylch sustemau rheoli ac archwiliadau yn y fan a'r lle;
- Gwelliannau 85 a 94 ar y defnydd o ofynion trawsgydymffurfio; a
- Gwelliant 87 ar dagio defaid a gwartheg yn electronig.

Fodd bynnag, yn unol â barn y mwyafrif o randdeiliaid a ymatebodd i ni, ni allwn gefnogi Gwelliannau 88 ac 89 a fyddai'n dileu'r gofynion ar ffermwyr i gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Plaladdwyr Cynaliadwy. Byddwn hefyd yn gofyn i Aelodau Senedd Ewrop  gefnogi gwelliannau a fyddai'n sicrhau bod mesurau trawsgydymffurfio yn parhau i sicrhau y gellir cadw cymhorthdal incwm yn ôl mewn achosion o wenwyno adar gwarchodedig.

Tra ein bod yn cydnabod y gall mynd i'r afael â rhywogaeth oresgynnol estron fod yn gostus a chymhleth ac nad ydym eisiau i'r baich gwympo ar ffermwyr yn unig, ni allwn gefnogi Gwelliant 102 ar hyn o bryd. Mae'r Pwyllgor wedi clywed gan randdeiliaid yn y

Bae Caerdydd | Cardiff Bay
Caerdydd | Cardiff
CF99 1NA

Ffôn | Tel: 029 2089 8639
E-bost | Email: Pwyllgorac@cymru.gov.uk

diwydiant ffermio sy'n dweud tra'u bod o'r farn y dylai gweithredu i fynd i'r afael â rhywogaeth oresgynnol estron ddigwydd ar lefel leol yn hytrach nag ar lefel fferm unigol, byddent yn cefnogi mesurau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i bob ffermwr gymryd rhan mewn unrhyw gynlluniau o'r fath sy'n digwydd. Felly, byddwn yn gofyn am eglurhad o fwriadau a chwmpas y gofynion trawsgydymffurfio ynghylch rhywogaeth oresgynnol estron i sicrhau eu bod yn galluogi cydweithredu heb osod rhwymedigaeth rhy feichus ar ffermwyr.

Diolchwn i chi a'r Pwyllgor Amaeth am y gwaith caled a gyflawnwyd gennych hyd yma i ddatblygu a gwella'r cynigion a phob dymuniad da i chi gyda'r gwaith caled sy'n eich wynebu wrth ddod i gytundeb.

Rydym yn cydnabod yr effaith hollbwysig y caiff cytundeb ar y fframwaith ariannol amlflwydd ar y cynigion i ddiwygio ac felly, byddwn yn parhau i alw am gadw cyllideb y PAC ar y lefel bresennol.

Yn gywir

**Vaughan Gething AC**
Cadeirydd – Grŵp Gorffen a Gorchwyl ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin